# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 19 Mehefin 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(72)

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30.

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Cafodd cwestiynau 5 a 7 eu grwpio. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

**Pwynt o Drefn**
Cododd Ieuan Wyn Jones bwynt o drefn o dan Reol Sefydlog 13.9 yn ymwneud ag ymddygiad yn y Siambr, yn dilyn sylwadau a wnaeth Ken Skates a oedd yn awgrymu mai Ieuan Wyn Jones fyddai'r Gweinidog pan oedd Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn gwneud penderfyniadau ynghylch Powys Fadog. Tynnodd Ken Skates unrhyw sylwadau a oedd yn ffeithiol anghywir yn ôl.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.25.

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ: Buddsoddi i Arbed

Dechreuodd yr eitem am 14.42.

### 4. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Gwella Ysgolion

Dechreuodd yr eitem am 15.13.

### 5. Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: Adolygiad o Wasanaethau Cynghori

Dechreuodd yr eitem am 15.52.

### 6. Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: Cynllunio a Chyflenwi Integredig

Dechreuodd yr eitem am 16.27.

## 7. Datganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth: Plant a Phobl Ifanc Egnïol

Dechreuodd yr eitem am 16.53.

## 8. Dadl ar Ofal Iechyd y Llygaid yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 17:24

**NDM5009 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r camau a gymerwyd hyd yma i wella gofal iechyd y llygaid; a

2. Yn cydnabod bod yna fwy o waith i'w wneud ac y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun yn amlinellu ei hymrwymiad i wella gofal iechyd y llygaid ar gyfer pobl Cymru ymhellach fel rhan o raglen iechyd y cyhoedd ehangach.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1, dileu 'camau a gymerwyd hyd yma' a rhoi 'datblygiadau a wireddwyd gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector' yn ei le.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a gweddill y gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2, dileu popeth ar ôl 'i'w wneud,' a rhoi'r canlynol yn ei le:

'ac y bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gydlynu rhaglen iechyd y cyhoedd ehangach a fydd yn ymgorffori newidiadau mewn prosesau monitro a chasglu data, sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi cynlluniau gwasanaethau a gwaith hybu iechyd y llygaid mwy gwybodus'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 9 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y cynnydd sy’n deillio o Strategaeth Olwg Cymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cynlluniau gofal llygaid yn y dyfodol yn cysylltu â'r gwaith hwn ac yn adeiladu arno.
http://www.vision2020uk.org.uk/ukvisionstrategy/page.asp?section=134&sectionTitle=Wales+Vision+Strategy

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi toriadau Llywodraeth Cymru i gyllideb y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a oedd yn fwy nag erioed o’r blaen, a bod modd i’r rhain beryglu’r broses o weithredu’r cynllun gofal iechyd llygaid.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 40 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r gefnogaeth drawsbleidiol i sicrhau bod gostyngiad mesuradwy mewn achosion o golli golwg y mae modd eu hosgoi yn flaenoriaeth ar gyfer iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw gynllun gofal llygaid sy’n cael ei gyhoeddi yn sicrhau bod pob plentyn pedair a phum mlwydd oed yng Nghymru yn cael profion golwg yn yr ysgol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chasgliadau ymchwil sy'n awgrymu bod strwythur a chyfeiriad canfyddedig optometreg o ran gwerthu sbectolau yn annog y gymuned i ystyried bod profion llygaid (a gynhelir mewn siopau) yn wahanol i gamau gwarchod iechyd sylfaenol eraill.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd gwelliant 7.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5009 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r datblygiadau a wireddwyd gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i wella gofal iechyd y llygaid;

2. Yn cydnabod bod yna fwy o waith i'w wneud ac y bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gydlynu rhaglen iechyd y cyhoedd ehangach a fydd yn ymgorffori newidiadau mewn prosesau monitro a chasglu data, sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi cynlluniau gwasanaethau a gwaith hybu iechyd y llygaid mwy gwybodus;

3. Yn cydnabod y cynnydd sy'n deillio o Strategaeth Olwg Cymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cynlluniau gofal llygaid yn y dyfodol yn cysylltu â'r gwaith hwn ac yn adeiladu arno;

4. Yn croesawu'r gefnogaeth drawsbleidiol i sicrhau bod gostyngiad mesuradwy mewn achosion o golli golwg y mae modd eu hosgoi yn flaenoriaeth ar gyfer iechyd y cyhoedd yng Nghymru; a

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw gynllun gofal llygaid sy'n cael ei gyhoeddi yn sicrhau bod pob plentyn pedair a phum mlwydd oed yng Nghymru yn cael profion golwg yn yr ysgol

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 18:18

Daeth y cyfarfod i ben am 18:21

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, ddydd Mercher, 20 Mehefin 2012**